



Cynllun Iaith Cymraeg

2021/2022

Cyflwyniad

National Theatre Wales (NTW) yw cwmni theatr cenedlaethol Saesneg y wlad. Cafodd ei lansio ym mis Tachwedd 2009, a llwyfannodd ei gynhyrchiad cyntaf ym mis Mawrth 2010. Nid yw National Theatre Wales yn sefydliad sy'n gweithredu o un adeilad penodol, mae'n llwyfannu cynyrchiadau a digwyddiadau mewn amrywiaeth eang o fannau a lleoliadau ledled Cymru.

Cyd-destun

Er mai creu theatr Saesneg ledled Cymru a thu hwnt yw ein brîff craidd, credwn fod gennym ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi'r Gymraeg trwy ein gwaith a'r gwasanaethau a ddarparwn i'r rhai sydd yn ymgysylltu â ni. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ac rydym yn ymwybodol bod gennym ni fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus ran i'w chwarae hefyd wrth gyflawni uchelgeisiau Strategaeth Cymraeg 2050, sy'n ceisio gweld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn canol y ganrif.

Mae NTW yn cydnabod pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac yn benodol y nod ar gyfer "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau a chwaraeon a gweithgareddau hamdden".

Wrth ddechrau edrych i'r dyfodol wedi'r pandemig, bydd ffocws NTW dros y 12 mis nesaf yn symud tuaf at gytuno ar Weledigaeth a Chenhadaeth o fewn ein Cynllun Strategol 2022-2025. Bydd hyn yn cynnwys mesurau i ymgorffori'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg ymhellach trwy ein gweithrediadau, ein strategaeth a'n rhaglenni artistig.

Mae'r cynllun hwn yn darparu trosolwg o'n gweithgareddau Cymraeg, ein cydymffurfiad â safonau'r Gymraeg yn ogystal a blaenoriaethau allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf.

Gweithgaredd Cyfredol

TROSOLWG

Mae NTW yn anelu i fynd tu hwnt i'w dyletswyddau rheoleiddio o safonau'r iaith Gymraeg. Mewn cefnogi datblygiad artistiaid sydd yn dod i'r amlwg i ddatblygu eu gwaith eu hunain trwy ei raglen Datblygiad Creadigol mae NTW yn gweithio gyda cwmni theatr iaith Gymraeg, Theatr Genedlaethol Cymru, i annog artistiaid yng Nghymru i weithio ym mha bynnag iaith y maent yn eu dymuno.

Dros y 2 flynedd diwethaf:

- Mae 17 contract llawrydd yn ymwneud â chynyrchiadau NTW wedi eu llenwi gan siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf
- Roedd 19 o 62 artist yn ymwneud â'r rhaglen Datblygiad Creadigol yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf

Er bod ein gweithgaredd dros y 18 mis diwethaf wedi ei effeithio'n sylweddol gan y pandemig COVID-19, mae ein gweithgaredd diweddaraf sydd yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg yn cynnwys:

- **EGIN** – Cynhaliom gyfnod preswyl rhyngwladol ar gyfer artistiaid dros bythefnos o amgylch themâu cwmp ecolegol a chyfiawnder hinsawdd yn Capel Curig, Eryri. Roedd hanner yr artistiaid a oedd wedi ei lleoli yng Nghymru yn siaradwyr Cymraeg, ac roedd presenoldeb Cymraeg cryf yn sgysiol ac yn fwy ffurfiol. Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiad dilynol cwbl dwyieithog gan EGIN yng Nghanolfan Gymunedol Capel Curig, gyda'r gymuned o bobl leol, artistiaid preswyl a rhanddeiliaid eraill yn myfrio ar y preswylad pythefnos. Crewyd cyhoeddiad dwyieithog a oedd yn cynnwys delweddau a myfyrdodau ar breswylad Capel Curig gan artistiaid, trefnwyr a rhanddeiliaid eraill.
- **Podlediad Sgysiau Hinsawdd** – Fe wnaethom ryddhau podlediad, wedi ei greu gyda Lisa Heledd Jones, yn dogfennu digwyddiadau cyhoeddus a gynhaliom fel rhan o EGIN, cyfres o bedair trafodaeth fywiog yn cynnwys pobl leol ac artistiaid o amgylch themâu hinsawdd a chyfiawnder, a symudodd y sgwrs yn llyfn ar draws y Gymraeg a'r Saesneg.
- **Go Tell the Bees (a'r digwyddiad rhagflaenol digidol Procession)** – Roedd yn hanfodol i'n gwaith yn Sir Benfro ein bod yn wirioneddol gynrychioliadol o'r sir gyfan, a oedd yn golygu bod y Gymraeg yn ymddangos drwy'r gwaith. Roedd pob clip i roi blas a'n ffilmiau cenhadaeth yn gwbl ddwyieithog. Ar gyfer ein gorymdaith ddigidol ym mis Mehefin 2020 fe wnaethom gyflogi dau actor dwyieithog a sicrhau bod elfennau mawr o'r sgript wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg. Gyda Carys Eleri fe wnaethom hefyd ryddhau sengl ddwyieithog 'Go Tell The Bees/Dod Nol yn Fy Nghoed'. Roedd y ffilm Go Tell the Bees yn cynnwys dau gymeriad a symudodd yn llyfn rhwng y Gymraeg a Saesneg, ac un yn benodol â thameidiau mawr o destun yn Gymraeg yn unig. Ymddangosodd elfennau Cymraeg eraill drwy'r ffilm ac yn yr adborth gwnaeth llawer o aelodau'r gynulleidfa sylwadau ar eu pleser o weld y Gymraeg yn nodweddu'n naturiol fel hyn. Mae ein holl adnoddau digidol Learning Hive ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn ddwyieithog ac rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion Cymraeg yn y sir, gan arwain gweithdai dwyieithog. Cyfrannodd disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg at yr arddangosfa gelf a oedd yn mynd law yn llaw gyda dangosiad y ffilm - roedd eu gwaith yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Rhwydwaith** – Fel rhan o'r gwaith comisiynu a chyflwyno'r gwaith digidol yma, fe wnaethom gyd-gomisiynu 7 prosiect a oedd yn Gymraeg yn rhannol neu yn gyfan gwbl
- **On Bear Ridge** – Roedd ein cyd-gynhyrchiad gyda The Royal Court yn cynnwys Cymraeg a Saesneg yn y destun canolog ac o fewn elfennau cerddorol y cynhyrchiad. Rydym ar hyn o bryd mewn sgwrs gydag Y Cyngor Prydeinig a Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ynglyn a'r posibilrwydd o ledaeniad rhyngwladol o'r testun/cynhyrchiad.

SUT RYDYM YN DARPARU GWASANAETH ANARTISTIG I'R CYHOEDD YN GYMRAEG

Cyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru

Agwedd allweddol o frand NTW yw ei ymdeimlad o gymuned, wedi ei ymgorffori gan leisiau ei staff, artistiaid, ac aelodau TEAM. Er bod ein llais sefydliadol yn gwbl ddwyieithog, rydym yn annog yr unigolion sydd yn rhan o gymuned NTW i fynegi eu hunain ym mha bynnag iaith sydd orau ganddyn nhw.

Delio gyda gohebiaeth

- Mae NTW yn croesawu gohebiaeth yn Saesneg a Chymraeg.
- Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg yn arwain at oedi.
- Bydd unrhyw ohebiaeth Cymraeg a geir gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau yn derbyn ateb yn Gymraeg.
- Bydd yr amserlen o ran ymateb i ohebiaeth Cymraeg yr un fath ag ymateb i ohebiaeth Saesneg.
- Pan fyddwn yn gwybod bod yn well gan aelod o'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg, yna bydd yr unigolyn hwnnw yn derbyn pob gohebiaeth yn y dyfodol yn Gymraeg.
- Bydd NTW yn dechrau ac yn cynnal cronfa ddata o gwsmeriaid sy'n dewis derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.
- Pam nad ydym yn gwybod dewis iaith yr unigolyn, er engrhaifft wrth anfon llythyrau safonol, bydd gohebiaeth ysgrifenedig â'r cyhoedd yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog.

Cyfathrebiadau dros y ffôn

Bydd canllawiau yn cael eu rhoi i staff am y camau y dylid eu dilyn wrth ateb y ffôn. Bydd yr holl alwadau allanol yn cael eu hateb â chyfarchiad dwyieithog safonol. 'Bore da/Good morning, National Theatre Wales' neu 'Prynhawn da/Good afternoon, National Theatre Wales'.

Os nad yw aelod o staff yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog, yna bydd yn esbonio'r sefyllfa i'r unigolyn ac yn cynnig gwasanaeth Cymraeg gan wirfoddolwr/aelod arall o staff. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, gall y galwr ddewis cael siaradwyr Cymraeg i ddychwelyd ei alwad; cyflwyno'r cais yn ysgrifenedig (copi caled/e-bost); neu i barhau â'r sgwrs yn Saesneg. Bydd NTW yn darparu cyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad y gellir trosglwyddo galwadau iddynt.

Yn dilyn sgwrs ffôn yn Gymraeg bydd yr holl gyfathrebiadau dilynol, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog ar gais y galwr.

Bydd negeseuon peiriannau ateb yn ddwyieithog yn ein swyddfeydd yng Nghymru.

Delio â'r Cyhoedd

Bydd NTW yn gwneud ymdrech i sicrhau bod siaradwr Cymraeg yn bresennol ym Mlaen y Tŷ a, pan yn dychwelyd i'r swyddfa, bydd yn ymdrechu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn bresennol yn eu swyddfeydd i ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg. Pan fydd ymholiadau o natur arbenigol yn cael eu gwneud yn Gymraeg, ac nid yw'r aelod o staff sy'n gymwys i ymdrin â'r ymholiad yn siarad Cymraeg, bydd y cwsmer yn cael cyfle i gyfathrebu ei ymholiad yn Gymraeg a chael ateb yn Gymraeg, pryd bynnag y bo hyn yn bosibl.

Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg wyneb yn wyneb trwy ddefnyddio'r cynllun bathodyn iaith Gwaith.

Digwyddiadau Artistig

Yn yr un modd a'i gynyrchiadau, ac yn unol â briff y cwmni, bydd digwyddiadau artistig cyhoeddus a gynhelir gan National Theatre Wales yn cael eu cyflwyno yn Saesneg yn bennaf gydag iaith Gymraeg a chynnwys diwylliannol Cymraeg wedi'i ymgorffori mewn cynyrchiadau a phrosiectau yn y dyfodol, fel sy'n briodol yn artistig. Er enghraifft - mae ein cynhyrchiad sydd i ddod, **Wanted Petula**, yn ddwyieithog gyda defnydd cwbl integredig o'r Gymraeg a'r Saesneg o fewn y perfformio a'r chapsiynu. Rydym hefyd yn lansio **gwasanaeth darllen sgriptiau dwyieithog** yn 2021 gyda'n partneriaid Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Clwyd.

Diwgwyddiadau Anartistig

Bydd hysbysiadau am holl ddigwyddiadau cyhoeddus anartistig (e.e. lansiadau'r tymor, lansiadau preswyl, cynadleddau, gweithdai) yn ddwyieithog, a byddwn yn annog ein holl westai i ddefnyddio eu dewis iaith.

Bydd anghenion cyfieithu yn cael eu hasesu cyn cynnal unrhyw ddigwyddiadau anartistig, a bydd y cyfleusterau cyfieithu priodol yn cael eu darparu ar sail yr asesiad hwn. Os yw cyfleusterau cyfieithu yn cael eu darparu rhoddir gwybod ymlaen llaw y bydd croeso i unrhyw un siarad Cymraeg. Yn dilyn yr asesiad, os nad yw cyfleusterau cyfieithu yn cael eu hystyried yn addas neu'n anymarferol, bydd hyn yn cael ei fynegi ymlaen llaw. Gwneir yr asesiad ar sail pwrpas neu bwnc y cyfarfod, ei leoliad, y rheini sy'n debygol o fod yn bresennol ac unrhyw wybodaeth ynglyn â dewis iaith a geir ymlaen llaw. Yn yr un modd, gwneir asesiad o'r gofyniad i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg i dderbyn a chrosawu'r cyhoedd yn ystod cyfarfodydd. Byddwn yn ceisio sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu wirfoddolwr ar gael i siarad â'r cyhoedd.

Bydd bathodynau iaith Gwaith sy'n dynodi siaradwyr Cymraeg yn cael eu gwisgo sy'n dangos pa aelodau o staff neu wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

Hunaniaeth Brand

Enw'r cwmni bob amser fydd NTW, boed ar arwyddion parhaol, logos etc. Ni ellir cyfieithu hwn i'r Gymraeg, oherwydd wrth gyfieithu'r enw i Theatr Genedlaethol Cymru, mae'n cyfeirio at sefydliad penodol arall sydd â hunaniaeth brand ei hun.

Bydd deunydd ysgrifenedig yn ddwyieithog lle bo'n briodol. Er enghraifft, bydd testun safonol a gwybodaeth megis dyddiadau, lleoliadau a gwybodaeth am gynulleidfaedd yn ddwyieithog, ond ni fydd teitlau ac arwyddeiriau, dyfyniadau o sgriptiau neu ddyfyniadau o adolygiadau'r wasg yn ddwyieithog. Bydd papur pennawd, slipiau cyfarch a chardiau apwyntiadau yn ddwyieithog â'r ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd.

Bydd yr holl hysbysiadau cyffredinol a chyhoeddus a hysbysebion swyddi i'r cyfryngau yng Nghymru yn ddwyieithog.

Hysbysebu

Bydd unrhyw hysbysebion darlledu yn cael eu darlledu yn yr iaith sy'n briodol i'r orsaf.

Mae ein holl hysbysebion mewn cyhoeddiadau o Gymru yn gwbl ddwyieithog (neu'n Gymraeg yn unig, mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith). Byddwn yn chwilio ac yn ymchwilio i gyfleoedd hysbysebu drwy gyfryngau Cymraeg eu hiaith.

Mae ein holl hysbysebion recriwtio yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau sy'n cael eu dosbarthu yng Nghymru.

Byddwn yn ystyried prynu gwagle hysbysebu yn y ddwy iaith neu'r naill iaith wrth asesu ein hanghenion hysbysebu.

Arwyddion

Yng Nghymru, bydd yr holl arwyddion allanol a mewnol mewn manau cyhoeddus lle bynnag y mae NTW yn gweithredu yn ddwyieithog ac yn gyfartal o ran ffurf, maint, safon ac amlygrwydd. Lle bynnag y bo'n hanfodol i ddefnyddio arwyddion Saesneg a Chymraeg ar wahân, byddant yn gyfartal.

Byddwn yn sicrhau bod yr holl arwyddion dros dro sy'n wynebu'r cyhoedd ac yn cael eu defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog, ar ôl cael eu gwirio yn y lle cyntaf gan siaradwr Cymraeg rhugl y mae naill ai yn aelod o staff neu'n rhan o'r gwasanaethau cyfieithu yr ydym yn eu defnyddio.

Print a chyhoeddiadau

Mae deunydd marchnata NTW yn ddwyieithog. Bydd rhaglenni ein cynyrchiadau yn ddwyieithog yng Nghymru ond lle darperir cynnwys gan ein hartistiaid sy'n cydweithio â ni rydym yn annog yr artistiaid hynny i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith. Bydd NTW yn defnyddio asiantaeth gyfieithu broffesiynol ar gyfer cyfieithu copi ac unrhyw ddogfennau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd megis polisïau ac adroddiadau penodol.

Datganiadau i'r Wasg

Rydym yn ymrwymedig i gyhoeddi datganiadau a hysbysiadau dwyieithog i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru. Mae datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Gwneir asesiad o nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o bob cynhyrchiad, er mwyn i'r wasg Gymraeg ei hiaith gael arweiniad clir o ran y cyfweleion sydd ar gael i siarad â hwy yn Gymraeg.

Cyfathrebiadau Digidol

Bydd gwefan NTW yn gwbl ddwyieithog a bydd gan bob tudalen Saesneg dudalen Gymraeg cyfatebol. Bydd y ddwy iaith yn ymddangos ar wahân a bydd yn bosibl i'r defnyddiwr symud o'r naill iaith i'r llall ar unrhyw adeg trwy ddefnyddio'r botwm amlwg i newid yr iaith. Bydd deunydd a gyhoeddir ar wefan NTW yn ymddangos yn Saesneg ac yn Gymraeg a bydd yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd lle bynnag y bo'n bosibl.

Cyfryngau Cymdeithasol

Bydd sianeli cyfryngau cymedithasol NTW yn gwbl ddwyieithog, a gall y cyhoedd ymgysylltu yn eu iaith dewisol. Bydd rhai achosion lle bydd unigolion yn siarad neu yn ymateb yn eu hiaith dewisol. Ar yr achlysuron hyn, bydd hyn y cynnwys yn cael ei arwyddo gyda llythrennau cyntaf enw'r unigolyn.

Fideo, Sain a Ffotograffiaeth

Bydd holl gynnwys fideo, sain a ffotograffiaeth (e.e. testun, penawdau, adroddiadau) yn ddwyieithog, heblaw am gynnwys artistig. Er enghraifft, ni fydd dyfyniadau o sgriptiau neu deitlau sioeau, sy'n ymddangos mewn rhaghysbysebion fideo, yn cael eu cyfieithu, ond bydd yr wybodaeth yn y swyddfa docynnau yn cael ei chyfieithu.

CYDYMFFURFIO GYDA SAFONAU IAITH GYMRAEG

Mae NTW yn parhau i gydymffurfio â gofynion y 138 safon fel y manylir yn yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r dyletswyddau a osodwyd ar NTW a chynhaliwyd sesiwn frifio Ymwybyddiaeth a Safonau Cymraeg yn gynnar yn 2020 i atgoffa'r holl gydweithwyr o'r rhwymedigaethau a rennir tuag at yr iaith - roedd y sesiwn hefyd yn caniatáu nodi arfer da yn ogystal â meysydd posibl ar gyfer gwella. Mae sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg arall wedi'i threfnu ar gyfer Medi 2021 a bydd yn cynnwys aelodau staff ac Ymddiriedolwyr NTW a Collective Cymru / Festival 2022.

Er bod croesawu adborth a sylwadau am ein darpariaeth o'r safonau yn caniatáu darganfod cyfleoedd i wella, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae NTW yn parhau i ymateb i bob cais am wybodaeth perthnasol gan Comisiynydd y Gymraeg ac yn ddiweddar wedi darparu ymateb cynhwysfawr i holiadur Hunanasesiad y Comisiynydd. Ystyriwyd bod asesiad NTW yn y categorïau sicrwydd uchel / canolig o gydymffurfiaeth yn y mwyafrif o'r meysydd a aseswyd.

Blaenoriaethau allweddol ar gyfer y 12 mis nesaf

Blaenoriaethau allweddol NTW o ran yr iaith Gymraeg dros y 12 mis nesaf yw:

- Gwreiddio pellach o'r iaith Gymraeg a diwylliant y iaith Gymraeg drwy weithrediadau, strategaeth a rhaglennu artistig NTW, gyda ffocws benodol ar ein Cynllun Strategaeth 2022-2025.
- Sicrhau fod ein Cyfarwyddwr Artistig yn ymgysylltu â artistiaid, actifyddion cymuned a hwyluswyr diwyllianol iaith Gymraeg i gychwyn adeiladu perthnasoedd gyda nhw, yn anffurfiol ac fel mentoriaid ffurfiol.
- Annog mwy o staff NTW i ddysgu'r iaith ac i ddatblygu sgiliau sydd yn barod yn bodoli. Bydd cyrsiau Cymraeg Gwaith/Cymraeg yn y Gweithle yn cychwyn ym mis Medi 2021, gyda NTW wedi ymrwmo i staff i'w cwblhau yn ystod cyfnod gwaith.
- Sicrhau bod camau i wella yn cael eu gweithredu yn y meysydd lle nododd yr hunanasesiad fod sicrwydd isel o gydymffurfiaeth o bosib.